Grant gwisg ysgol ac offer

Mae'r grant Grant Datblygu Disgyblion (GDD)) yn darparu cymorth ariannol i deuluoedd ar incwm isel i brynu:

- Gwisg ysgol gan gynnwys cotiau ac esgidiau;
- Cit chwaraeon ysgol gan gynnwys esgidiau;
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, sgowtiaid; tywyswyr; cadetiaid; crefftau ymladd milwrol; chwaraeon; celfyddydau perfformio neu ddawns;
- Offer e.e. bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu;
- Offer arbenigol lle mae gweithgareddau cwricwlwm newydd yn cychwyn fel dylunio a thechnoleg; ac
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau ysgol fel dysgu awyr agored e.e. gwisg wrth-ddŵr.
- Offer TG - gliniaduron a thabledi yn unig. Bydd angen i chi gadarnhau na all ysgol eich plentyn fenthyg gliniadur / bwrdd i'w ddefnyddio gartref.

Mae cyllid o hyd at £125 ar gael i bob plentyn cymwys, ac eithrio'r rhai ym Mlwyddyn 7 sydd â hawl i £200.

Pwy sy'n gymwys?

Mae cyllid ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn y blynyddoedd ysgol canlynol ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol (2020/2021):

- Dosbarth Derbyn
- Blwyddyn 1
- Blwyddyn 3
- Blwyddyn 5
- Blwyddyn 7
- Blwyddyn 8
- Blwyddyn 9
- Blwyddyn 10
- Blwyddyn 11
- Disgyblion mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau anghenion arbennig ac unedau atgyfeirio disgyblion sy'n 4,5,7,9,11,12,13,14 neu 15 oed

Mae'r cyllid hefyd ar gael i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal. Mae "plant sy'n derbyn gofal" yn golygu plant mewn gofal cyhoeddus, sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth, mewn cartrefi preswyl neu gyda rhieni neu berthnasau eraill trwy Ddeddf Llys.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer y flwyddyn ysgol academaidd hon (2020/2021) yw Mehefin 15fed. Bydd y grant yn ailagor ar gyfer ceisiadau 2021/2022 o Orffennaf 15fed.

Gallwch wneud cais ar gyfer y grant hwn o fewn munudau ar-lein drwy ein gwefan: www.sirgar.llyw.cymru

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd efallai y bydd eich ysgol yn gallu eich helpu.

Caiff y grant hwn ei weinyddu gennym ni ar ran Lywodraeth Cymru

PDN0381

School uniform and equipment grant

The Pupil Development Grant (PDG) grant provides financial assistance to families on low incomes for the purchase of:

- School uniform including coats and shoes;
- School sports kit including footwear;
- Uniform for enrichment activities, including but not limited to, scouts; guides; cadets; martial arts; sports; performing arts or dance;
- Equipment e.g. school bags and stationery;
- Specialist equipment where new curriculum activities begin such as design and technology; and
- Equipment for out of school hour's trips such as outdoor learning e.g. waterproofs.
- IT equipment - laptops and tablets only. You will need to confirm that your child's school cannot loan them a laptop/table for use at home.

Funding of up to £125 is available to each eligible child, with the exception of those in Year 7 who are entitled to £200.

Who is eligible?

Funding is available to pupils who are eligible for Free School Meals in the following school years for the current academic year (2020/2021):

- Reception class
- Year 1
- Year 3
- Year 5
- Year 7
- Year 8
- Year 9
- Year 10
- Year 11
- Pupils in special schools, special needs resource bases and pupil referral units who are aged 4,5,7,9,11,12,13,14 or 15

The funding is also available to all looked after children of compulsory school age. Looked after children' (LAC) means children in public care, who are placed with foster carers, in residential homes or with parents or other relatives through an Act of Court.

Closing date for applications for this academic school year (2020/2021) is 15th June. The grant will re-open for 2021/2022 applications from 15th July.

You can apply for this grant in minutes on-line via our website: www.carmarthenshire.gov.wales

If you do not have internet access your school may be able to assist you.

This grant is being administered by us on behalf of Welsh government

PDN0381